13.1 Mae cydnabyddiaeth eang nad yw'r model cyffredol ar gyfer darpariaeth a chyllido gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gweithio. Mae darparwr gofal yn cael trafferth dal eu gartael mewn digon o incwm i barhau i fod yn fasnachol hyfry; mae staff gofal yn brin o gymhelliant ac mae'n anodd eu recriwtio a'u cadw. Mae gwasanaethau'n dameidïog, gyda llawer o'r rhai sy'n derbyn gofal yn cael eu gortodi i gyfrannu at ffioedd i sicrhau gofal preswyl neu'n cael eu gadael gydag ychydig iawn o ddarpariaeth yn y cartref.

13.2 Mae'r gost i'r trefndalwr yn mynd ymhell y tu hwnt i ofal ei hun. Mae'r cysylltiad rhwng darpariaeth gofal o ansawdd uchel yn y cartref a'r tebygolrwydd y bydd angen gofal ysbity ar bobl oedranus wedi'i hen sefydlu; felly hefyd y cysylltiad rhwng yr amser y mae person oedranus yn ei dreulio yn yr ysbity ac argaeledd gofal yn ystod cyfnod adferiad, naill ai yng nghartref yr unigolyn neu mewn sefydliad preswyl. Yn gyffredinol, cydnabyddir bod gofal ataliol yn y cartref yn well na gofal iechyd adweithiol ac mae darpariaeth breswyl sy'n addas i'r diben yn eiflen hanfodol mewn pecyn cynhwysfawr di-dor sy'n gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus ac sy'n gofalu am bobl pan fydd ei angen arnynt fwyaf. Ond mae'r system gofal cymdeithasol yn dameidïog, yn anghyson ac yn ami nid yw wedi'i hintegreiddio â'r gwasanaethau eraill sy'n ffurfio gwladwriaeth les y DU.

13.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r materion hyn. Yn briodol, o ystyried amlygrwydd yr AS Cymreig, Aneurin Bevan wrth greu cyflawniad polisi cymdeithasol mwyaf y DU, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mae Gweinidogion Cymru yn hyrwyddo Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru. Mae yna addewid am wasanaeth cyffredinol, am ddim ac wedi'i ariannu'n llawn lle caiff ei ddarparu sy'n gweithio er budd pawb. Mae hyn yn rhywbeth sy'n derbyn cefnogaeth eang ond fel y mae'r papur hwn yn ei ddangos, bydd yn anodd ei gyflawni os nad yw'n mynd i'r afael â'r anghysondeb rhwng nod gwasanaeth cyffredinol wedi'i ariannu'n gyhoeddus a model ar gyfer darpariaeth sy'n dibynnu'n bennaf ar y sector preifat. Roedd penseir i'r GIG yn ymwybodol iawn na allai model sy'n dibynnu ar gomisiynu gwasanaethau gan gwmnïau preifat ddarparu system gofal iechyd cyffredinol. Dyma pam, yn wneb gwrthwynebiad sylweddol, y mynnodd Bevan ddarpariaeth drwy ysbityl oedd yn eiddo i'r GIG ac oedd yn cael eu rhedeg yn uniongyrchol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol.

13.4 Mae economeg gofal cymdeithasol ynghlwm wrth economeg eiddo a gwerth adeiladau; sefyllfa sy'n anodd ei datrys. Mae model cyfalafu sy'n dibynnu'n helaeth ar fuddsoddiad preifat yn gadael darparwr yn agored i bwysau cost ar lefel darparwr gwasanaeth. Mae'r cwmnïau hyn yn ddiwyddol iawn ar lefelau preswyliaid uchel, ac er mwyn gallu dal ati i weithredu nid oes ganddynnt lawer o ddewis ond ceisio gweithio costau i lawr i'w lefel isaf posibl. O ystyried mai staffio yw'r gost fwyaf, mae'n anochel mai gweithwyr gofal rheng flaen sy'n dioddef fwyaf yn sgil hyn, nid yn unig o ran cyfiog ond hefyd amodau gwaith a phensïynau. O'u cymharu â'u cymheiriaid sy'n gweithio i'r Cyngor a'r GIG, gweithwyr gofal yn y sector preifat yw dinasyddion ail ddosbarth y

- 12.4 Roedd cynigion yr Alban ar gyfer GGC yn gwrthod yn llwyr y syniad o 'wladoli' yn seiliedig ar y costau gwaharddol fyddai ynghlwm â chaffael yr eiddo cysylltiedig. Roedd hyn yn seiliedig ar dystiolaeth anecdotol am enghraifft yn Ucheliroedd yr Alban. Gellir lleihau'r ddadl hon gan y rheidrydd clir, sydd wedi'i gynnwys yn y cynigion hyn, i wahannu elfennau preswyl costau (a pherchnogaeth) a'u rheolaeth oddi wrth y ddarpariaeth o wasanaethau gofal.
- 12.5 Pe bai awgrym pellach yn cael ei wneud y dylid dod â'r ystad brefat i berchnogaeth gyhoeddus ar ryw adeg, neu ymateb i unrhyw newid yn y dirwedd ariannol bresennol er mwyn manteisio ymhellach ar gostau eiddo yn erbyn costau gwasanaeth, yna byddai cynnig i sefydlu'r rhenti am gyfnod er mwyn diogelu cyllid ar bob ochr yn ddarbodus.
- 12.6 Mae ansefydlogrwydd y farchnad, ynghyd â'r dystiolaeth o nifer y contractau sy'n cael eu 'dychwelyd' yn cyflwyno achos cymhellol dros ymyriad cyhoeddus. Maent hefyd yn cyflwyno cyfle i gaffael; mae'n anochel bod rhai darparwyr a gweithredwyr ar fin mynd i'r wal, ac mae hon yn sicr yn ddadl a wnaed gan gynrychiolwyr y sector preifat. Mae hon yn ddadl gref dros ymarferdeb newid ac efallai y byddai llawer yn y sector preifat sydd ohoni'n croesawu'r cyfle i symud neu ddatfuddsoddi.
- 12.7 Amcangyfrifodd adroddiad diweddar gan Age UK fod 'diffyg gofal cymdeithasol yn Lloegr ... yn costio'r swm syfrdanol o £500 bob munud' i'r GIG neu tua £900m y flwyddyn. Mae'n debygol bod y sefyllfa yng Nghymru o leiaf cynyddwng os nad yn waeth. Cydnabyddir yn eang bod y broblem wedi'i hachosi gan brinder gofal preswyl ac yn y cartref sy'n atal pobl hyn nad oes bellach angen gofal iechyd arnynt rhag cael eu rhyddhau o'r ysbty, ond na allant ddechweilyd adref heb gymorth neu eu bod yn methu â chael mynediad i ofal preswyl.
- 12.8 Byddai cynyddu'r ddarpariaeth yn amlyg yn arbed gwariant sylweddol i'r GIG ac, o ystyried yr amcangyfrifir mai cost cadw pobl yn yr ysbty yw £400 y dydd, o gymharu â £100 am ofal preswyl, gallai lefel yr arbediad hwnnw fod hyd yn fwy na chost darpariaeth gofal ychwanegol. Mae achos ariannol cryf felly dros gynyddu'r cyllido sydd ar gael ar gyfer gofal cymdeithasol er mwyn galluogi awdurdodau lleol i gaffael mwyl o welyau mewn gofal preswyl preifat ac i gynyddu'r ddarpariaeth yn y cartref. Fodd bynnag, fel y trafodwyd mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ni fyddai cynyddu'r cyllido sydd ar gael yn newid strwythur economaidd y sector gofal. Ni fyddai'n dileu'r cymhellion cryf ar lefel darparwyr i yrru costau mor isel â phosibl a byddai'n annhebygol o arwain at welliannau sylweddol yng nghyfllog ac amodau gwaith staff gofal. Ni fyddai ychwaith yn golygu gwelliannau mewn ansawdd i gwsmeriaid.
- 12.9 Mae diffyg ariannu yn y sector gofal yn amlyg yn broblem, ond nid dyna'r broblem gyfan. Oni bai bod camau'n cael eu cymryd i dynnu gofal allan o system farchnad sy'n blaenoriaethu elw i fuddsoddwyr, bydd unrhyw gynnydd mewn cyllido, yn rhannol o leiaf, yn cael ei gollu ar unwaith ar ffurf elw uwch, rhenti chwyddedig ac i dalu dyledion. Yn ogystal, byddai cadw cadwyn gyflenni damwidiog yn gweithio yn erbyn yr effeithlonrwydd traws-sector a allai ddeillio o'r system integredig a ragwellir yn 'Cymru Iachach'.

- 11.13 Gall costau aros mewn cartref gofal amrywio'n sylweddol rhwng darparwyr cartrefi gofal, cyfluesterau unigol a rhanbarthau. Er enghraifft, po fwyaf arbenigol yw'r gofal (fel gofal dementia) yr uchaf yw'r ffioedd cartref gofal.
- 11.14 Yn gyffredinol, mae cartref gofal sy'n cynnig amgylchedd mwy cyfforddus a chyfluesterau o ansawdd gwell yn codi ffioedd uwch. Mae ffioedd cartrefi gofal yn cynnwys costau gwesty: lleŷ, golchi dillad, prydau bwyd, gwresogi, goleuo, a.y.b. ynghyd â chostau gofal: gofal preswyl, gofal nyrso, gofal dementia.
- 11.15 Mae hyn yn cynnig rhai opsiynau ymarferol ar gyfer y syniad y gellid gwahanu costau gofal oddi wrth elfennau preswyl y gyllideb gofal.
- 11.16 Pe gellid nodi hyn yn glir ac yn gwbl dryloyw ar bob ochr, yna daw'r opsiwn i ddod â chanran uwch o'r gweithlu preifat i mewn i'r sector cyhoeddus heb newid natur na lleoliad y ddarpariaeth yn y tymor byr, yn ffordd amwng o ail-gydbwysu'r sector. Gellid mynd i'r afael â'r pryder allweddol ynghylch cyflogau ac arferion gwaith yn y modd hwn.
12. Materion Gyllido
- Cost trosglwyddo i ddarpariaeth gyhoeddus.**
- 12.1 "Rydym yn pryderu, drwy amlinellu'r manylion hyn, y gallwn roi'r argraff anti-riadol ein bod yn credu mai newid strwythurol yw'r hyn sydd bwysicaf. Nid dyna yw'r achos. Mewn rhai ffyrdd byddat'n well genny'm beidio â gorfod argymhell unrhyw newid strwythurol o gwbl. Mae pob newid strwythurol yn golygu ymdrech, ac arian, y bydd rhai pobl yn dadlau y byddat'n cael ei ddefnyddio'n well i gynnig cymorth i bobl. Nid ydym yn anghytuno. Ond mae angen newid strwythurol os yw'r strwythurau eu hunain yn rhwystro gofal a chymorth da i bobl; dyna yw'r achos ar hyn o bryd yn ein barn ni." Achos dros Wasanaeth Gofal Cenedlaethol, Llywodraeth yr Alban, 2021
- 12.2 Un o'r prif feiriadaethau a gwrthwynebiad i ddarpariaeth gyhoeddus gynyddol yw'r canfyddiad o'r costau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae costau gweithwyr, a'r cynnydd yn y costau hynny, yn arbennig yn cael eu defnyddio'n aml fel rhwystr i newid. Rhaid i unrhyw gynnig felly fynd i'r afael â'r materion hyn ac awgrymu gwrth-ddadl i liniaru'r honiadau.
- 12.3 Fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn, mae Gofal Cymdeithasol yn aml yn gweithredu ar lefelau eilw sy'n ymddangos yn denau iawn, ac mae llawer o ddarparwyr rheng flaen yn ei chael hi'n anodd gwneud eilw o gwbl. Ar yr wneub felly, ni fyddat'i symud i fodol darparu cyhoeddus nid-er-eilw yn gwrthbwysu'r cynnydd mewn costau staff a tydd yn deillio o'u dwyn i mewn i'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'r ffordd y caiff Gofal Cymdeithasol ei ariannu'n golygu bod symiau enfawr yn cael eu colli o'r system ar ffurf taliadau i gwmnïau dallianol ac yn y pen draw, buddsoddwyr mewn eiddo. Byddat'i model sy'n ddielu hyn yn rhyddhau symiau sylweddol a allai o bosibl wrthbwysu'r costau ychwanegol.

darparwy.²⁰ Mae cyllido tymor byr yn sgîl Covid-19 wedi helpu i atal lletiau uwch o fethiant, ond mae ansicrwydd mawr ynghylch y dyfodol.

11.7 Rhybuddiodd cadeirydd y Grŵp Gofal Annibynnol, sef coffi Iobio yn y sector preifat, y gallai fod methiannau a bod angen am newidiadau yn y model cyllido gan ddwud, 'Mae darparwy'r gofal wedi bod yn dioddef caledi ariannol ers blynnyddoedd lawer oherwydd diffyg cyllido dybryd.'²¹

Setyllfa'r Farchnad yng Nghymru

11.8 Mae mwy na deuddeg cant o gartrefi preifat yng Nghymru. Mae cyfanswm o 13,000 o bobl yn gweithio yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru; amcangyfrifir bod hyn ugain mil o bobl yn brin o'r gofyniad. Mae nifer y swyddi gwag yn y sector yn agosau at ddeg y cant.²²

Gofal yn y Cartref

11.9 Gall costau gofal yn y cartref amrywio'n fawr, yn dibynnu ar leoliad. Mae yna amrywiadau rhanbarthol sylweddol. Bydd costau hefyd yn dibynnu ar ba fath o ofal sydd ei angen, faint o ofal sydd eu hangen a pha amser o'r dydd a'r wythnos sydd angen y gofal hwnnw (gallai penwythnosau gostio mwy – a gall gwyliau banc gostio dwbl.)

11.10 Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd pecynnau gofal yn gallu cyfuno gofal yn y cartref ffurfiol â chymorth anffurfiol gan berthnasau a ffrindiau. Mae cael mynediad at ofal seibiant (arhosiad byr mewn cartref gofal), os oes angen, yn opsiwn a argymhellir. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'w ystyried os yw'r teulu'n chwarae rhan sylweddol mewn darparu'r gofal.

Llety Gwarchod

11.11 Mae costau byw mewn tai sy'n cael eu gwarchod a llety gofal ychwanegol yn cynnwys rhannau ar wahân. Mae'r rhannau hyn yn cynnwys: tai ar gyfer gwasanaethau cymunedol, rhent ar gyfer eiddo unigol, costau gwresogi, costau cymorth cysylltiedig â thai a ddarperir gan weithwyr cymorth, a chostau gwasanaethau gofal (lle derbynir gofal).

11.12 Nid yw'n syndod bod ffioedd yn amrywio yn ôl lleoliad, darparwydd, y math o wasanaethau a ddarperir a faint o ofal y mae'r preswlydd yn ei dderbyn. Cost gyfartalog cartref gofal preswyl yn y DU, yn 2020, oedd £34,944 y flwyddyn, gan godi i dros £48,720 y flwyddyn pan gaiff gofal nyrso ei gynnwys.²³

²⁰ <https://www.adass.org.uk/adass-spring-survey-21>

²¹ [https://independentcaregroup.co.uk/Mai 2020](https://independentcaregroup.co.uk/Mai%2020)

²² Socialcare.wales, The Economic Value of the Adult Social Care sector - Wales Final report, 2018

²³ Laining Buisson, Care of Older People UK Market Report 31st edition, 2020

11.2 Alldeiladu gallu awdurdodau lleoli i ddarparu gofal tyddai'r prif ofyniad. Byddai angen galluogi cynghorau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn uniongyrchol, yn hytrach na dim ond gweinyddu cyllid, rheoli perfformiad a negodi contractau. Yn gyntaf, trwy symud o ofal personol wedi'i gomisiynu at i'ariannu'n gyhoeddus i ofal personol wedi'i ddarparu'n gyhoeddus ac yna, yn arafach fel y byddai buddsoddiad yn caniatáu, caffaeliadau capasiti gwasanaeth gofal preswyl sector cyhoeddus o ansawdd uchel. Roedd cynigion Llafur yn seiliedig ar y dybiaeth realistsig y byddai angen i Awdurdodau Lleoli gynyddu'n raddol nifer y cartrefi gofal yn eu mediant.

11.3 Y cynllun oedd cynnig cymorth i gynghorau lleoli, gan sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti i gymryd drosodd cartrefi a gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd, nid yn unig lle maent yn methu, set yr unig adeg y mae hyn wedi digwydd hyd yn hyn, ond hefyd lle byddai hynny o fudd i weithrediad effeithlon ac effeithiol y gwasanaethau hynny. Mae geiriad ac egwyddor y newid hwnnw'n cynnig cryn lawer o gyflie am ddehongliad. Mae'n amlwg fodd bynnag bod unrhyw ddehongliad o'r geiriad yn dangos y potensial ar gyfer cyflogi gweithwyr gofal yn uniongyrchol gan Awdurdodau Lleoli. Gweithwyr gofal sydd yn y sector preifat ar hyn o bryd yw'r prif ffocws ar gyfer newid.

11.4 Roedd cynigion blaenorol yn derbyn y gallai Awdurdodau Lleoli, yn eu rôl o gomisiynu gwasanaethau, atgyfnerthu safonau a rheoliadau sector gofal a osodir yn genedlaethol. Mae hyn yn cynnwys safonau gofal moesegol, rheolau ymddygiad, costau gweithlu, cyflogau'r sector ac arterion yn y gweithle. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod cyfyngiadau comisiynu. Y polisi y mae Llafur wedi'i ddatgan yw 'Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd hirdymor y sector gofal cymdeithasol, byddwn yn sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n foesegol, ac yn dechrau adeiladu capasiti mewnol ar gyfer gofal yn y cartref, gan weithio tuag at system lle mae'r sector cyhoeddus yn chwarae'r rôl fwyafrol wrth ddarparu gofal.'¹⁷

11.5 Mae yna dystiolaeth hefyd nad yw'r system bresennol yn ariannol hyftw yn y tymor hir. Aeth pedwar cant o ddarparwyr cartrefi gofal i'r wal yn y pum mlynedd hyd at 2018 (The Guardian, 2018)¹⁸ ac mae cynghorau'n cael mwy a mwy o gcontractau gofal wedi'u trosglwyddo'n ôl iddynt (ADASS, 2019). Yn wir, mae saith deg pump y cant o gynghorau bellach wedi cael contractau wedi'u dychwelyd iddynt yn ôl ADASS.¹⁹ Yn ogystal, collwyd mwy na 43,000 o weilyau preswyl a 23,000 o weilyau gofal nrysiol ledled y DU rhwng 2013 a 2018.

11.6 Dywed 82% Gyfarwyddwyr Gofal Cymdeithasol eu bod yn bryderus am gynnaladwyedd rhai o'u darparwyr gofal yn y cartref, ac mae 77% yn bryderus am o'r darparwyr cartrefi gofal; mae 19% yn mynegi pryder am y 'rhan fwyaf' o'u

¹⁷ Labour.org.uk, Towards the National Care Service Labour's vision, 2019
¹⁸ <https://www.theguardian.com/society/2019>
¹⁹ ADASS.org.uk, ADASS budget survey, 2019

a llawn cymhelliant' a heb hynny, ychydig iawn o obaith sydd o greu gwasanaeth y byddai'r cyhoedd yng Nghymru yn ei gydabod fel 'gwasanaeth gofal cenedlaethol'.

10. Cynyddu capasiti mewnl awdurdodau lleol

Ystyriaethau a thysiaethau allweddol;

10.1 Y prif faterion i'w hystyried mewn unrhyw gynnyg yw'r anawsterau sy'n bodoli ar hyn o bryd o fewn y sector gwasanaethau. Materion gweithlu sy'n ymwneud â chyflogau ac amodau yw'r pwnc allweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef, ynghyd â recriwtio a dargawedd.

10.2 Ni ellir anwybuddu cyllido gofal yn gyffredinol, ac mae'n rhaid i unrhyw gynnyg gydabod sefyllfa'r farchnad, y ffaith bod gwariant cenedlaethol net wedi gostwng a bod cynhabuddiaeth eang bod angen am fwy o wariant.

10.3 Ni ellir anwybuddu'r angen am all-gydbwysu cyfran y ddarpariaeth gyhoeddus a phreifat. Byddai'n rhaid i unrhyw Wasanaeth Gofal Cenedlaethol y gellir cyfeirio ato felly, yn hytrach na dim ond fframwaith cenedlaethol ar gyfer darpariaeth wedi'i chomisiynu neu system genedlaethol o gylliddebau personol, gael ei ddarparu'n uniongyrchol gan gyffwrdd cyhoeddus. Byddai sefydlu egwyddorion craidd y byddai unrhyw wasanaeth o'r fath yn eu dilyn yn gofyn am lefel uchel o gyfranogiad gan y sector cyhoeddus, gan fynd â'r ysgogwyr syffaenol o gydraddoldeb o ran darpariaeth, safonau gofal, am ddim lle caiff ei ddefnyddio, a.y.b. y tu hwnt i rwymedi-gaethau cychundebol neu orfodaeth.

10.4 Roedd gan y Blaid Lafur yn Lloegr, o fewn eu cynigion ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol,¹⁶ gynlluniau i osod meini prawf cymhwysedd ar gyfer gofal personol am ddim, er mwyn sicrhau y byddai gan bawb, waeth pwy ydynt neu ble maent yn byw, hawl i'r un lefel o gymorth. Darparu gofal personol am ddim fydd sylfaen unrhyw Wasanaeth Gofal Cenedlaethol

10.5 Mae'r achos dros newid yn ddigamsyniol. Dylai'r newid sydd ei angen fod yn radical ac yn uchelgeisiol.

11. Modelau darparu gwasanaeth

11.1 Roedd cynigion Lafur ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cynyddu rôl Awdurdodau Lleol wrth gynllunio, dylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau gofal. Er y byddai'r holl weithgarwch hwn yn cael ei gynnal o fewn fframweithiau cenedlaethol, Awdurdodau Lleol oedd y prif gyfrwng ar gyfer darpariaeth sector cyhoeddus llawer ehangach yn y farchnad gofal.

¹⁶ Labour.org.uk, Towards the National Care Service Labour's vision, 2019

9.5 Nid yw'n atresymol dod i'r casgliad, heb gynydd mawr yn y graddau y mae gofali cymdeithasol yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan gyfrif cyhoeddus, na fydd llawer o symud tuag at yr uchelgais o gael gweithlu iechyd a gofali cymdeithasol cynaliadwy

9.4 Mae gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan awdurdodau lleol, yn elwa'n sylweddol yn sgil bargeinio am gyflogau ar draws y sector. Arbedir costau drwy beidio â ddyblygu amser ac adnoddau ar bob pwynt darparu gwasanaeth ac mae gweithluoedd yn elwa o wahanu cyflogwyr unigol oddi wrth y strwythur negodi cenedlaethol. Mae'n ddigon posibl y gellid cyflawni ymagwedd sector-cyfan tra'n parhau â threfniadau darparu tamewiog, ond mae'n anodd gweld sut y gellid gofodi cwmnïau preifat i gydymffurfio â threfn o'r fath heb ddeddfwriaeth a chreu trefniadau monitro a gofodi newydd costus.

9.3 Mae adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Cynghori ar Ymudo (MAC), a gomisiynwyd gan Weinidog Ffinau'r Dyfodol a Mewnudo, yn dod i'r casgliad ei bod yn amlwg bod strategaeth hirdymor, gydymlun ar gyfer y gweithlu, wedi'i gweithredu'n llawn gyda chyllid cyhoeddus digonol, yn hanfodol i wneud gofali cymdeithasol yn yrra ddeniadol, hyfwrw a chynaliadwy. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i argymhell y dylid datblygu 'Cynllun Pobl ar gyfer gofali cymdeithasol yn unol â'r GIG'. Mae cynllun gweithlu'r GIG mewn gwirionedd yn enghraifft wych o sut y gall cynllun gweithlu cydlynol fynd i'r afael yn uniongyrchol â phroblemau recriwtio a dargadwedd, ond mae'n anodd iawn gweld sut y gellid cyflawni hynny pe bai'r GIG yn cael ei ddarparu ar yr un model â gofali cymdeithasol.

9.2 Mae adroddiad ymchwil diweddar yn dogfennu sut mae staff gofali yn cael eu heffeithio'n negyddol gan fodol sydd i bob diben wedi'i adeiladu ar fanteisio'n annheg ar y gweithlu. Soniodd y rhai y cyfweilyd â nhw am sut yr oedd yn ymddangos bod cyflogwyr yn 'blaenoriaethu elw dros ofal' gan roi manyllion ynghylch sut yr oeddent yn mynd ati'n systematig i leihau costau trwy 'ddiffyg staffio cronig' a 'thorri cornelli o ran darparu gwasanaethau'. Nododd yr ymchwilyr bod sail i'r honiadau hyn mewn llawer o'r llenyddiaeth academaidd, sef bod yna berthynas rhwng modelau busnes ac ymddygiad torri costau:

hon barhau, ychydig o obaith fydd o ddenu'r 20,000 o weithwyr gofali ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru yn credu sydd eu hangen i ateb y galw cynyddol dros yn y blynnyddoedd nesaf.

bod hyn oherwydd bod ffioedd yn cael eu gosod yn rhy isel, mae rheswm da dros gred na fydd eu cynyddu, a gwneud dim byd arall, yn datrys y broblem. Byddai'r ffordd y mae'r farchnad yn gweithredu yn golygu bod cyfran sylweddol o unrhyw gynnydd mewn gwariant yn mynd fel taliadau, ffioedd ac elw i'r buddsoddwyr hynny sy'n dibynnu ar werthoedd cyfalaf chwyddedig i dynnu incwm ar draul y rhai sy'n gweithio'n galed i gynnal y gwasanaeth. Heb gynnydd dramatig mewn gwasanaethau gotal wedi'u darparu'n uniongyrchol nid yw hyn yn debygol o newid, ac mae'r cyhoedd yn annhebygol o gael gwerth da am y gwariant sylweddol iawn a wneir ar y gwasanaeth hanfodol hwn.

8.2 Mae llwyddiant y GIG i ddisodli system gotal iechyd preifat oedd wedi torri gyda gwasanaeth cynhwysfawr, am ddim lle caffiff ei ddarparu, yn dangos yn glir arwyddocâd canolog darpariaeth uniongyrchol. Hebdo mae'n anochel y bydd gwasanaeth ami-haen yn parhau, gan adael y gwasanaeth ymhell o'r hyn y byddai'r than twyat yn disgwyl i Wasanaeth Gotal Cenedlaethol ei ddarparu.

8.3 Heb ddarpariaeth gyhoeddus greiddiol, ni all gwasanaeth cenedlaethol fod yn ddim byd mwy na gwasanaeth a gomisiynir yn genedlaethol – set symud o gomisiynu lleoli i gomisiynu cenedlaethol. Mae p'un a fyddai hyn yn gwella safonau neu i'r gwrthwyneb yn destun dadleuol, ond yr hyn sy'n glir yw na fyddai'n newid yn sylfaenol y system fethedig o gomisiynydd/gweithredwr/cwmni dallianol/arianwr. Os yw Cymru am gyflawni'r newid radical y mae gwneid ym ddiwydion wedi'i addo, rhaid iddi gynnwys 'wedi'i ddarparu'n gyhoeddus' fel elfen angenrheidiol o Wasanaeth Gotal Cenedlaethol.

8.4 Mae'n anodd iawn gweld sut y gellir byth gyflawni'r uchelgais i greu gwasanaeth cynhwysfawr sy'n wirioneddol yn canolbwyntio ar y person mewn system sy'n dibynnu ar fecanweithiau'r farchnad ar gyfer elfennau sylweddol ohoni. Mae marchnad oedd yn darparu'r hyn sy'n broffidiol i gyflwynwyr a buddsoddwyr, ac mewn system gymhleth fel gotal, maent yn annhebygol iawn o gynniig yr ystod iawn o wasanaethau integredig a amlinellir yng ngwledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gotal cymdeithasol.

9. Materion Gweithlu

9.1 Un o'r pedair egwyddor a nodir yn nofyn 2019 yw 'Gweithlu iechyd a gotal cymdeithasol cynaliadwy sy'n llawn cymhelliant'. Mae'r papur hwn eisoes wedi nodi sut mae'r model presennol ar gyfer darpariaeth yn creu cymhellion i gadw costau gweithredu mor isel â phosibl. Cyflog isel a darpariaeth bensiw mor isel â phosibl yw'r norm, ynghyd ag arferion gwaith sy'n sicrhau cyfraddau trosi uchel a lefelau isel o gymhelliant. Mae'r prinder staff presennol mewn meysydd eraill o economi'r DU, megis manwerthu a lletygarwch, wedi cynyddu cyfleoedd i weithwyr gotal symud i gyflogaeth sy'n llai beichus ac yn aml yn talu'n well. Y canlyniad yw anallu cynyddol y sector gotal i recriwtio a chadw'r gweithlu sydd ei angen i ateb y galw am ofal. Ychydig o ddewis sydd gan y rhai sy'n cynnal y gwasanaeth, wedi'u cyfyngu gan gyfraddau awdurdod lleoli wedi'u capio a thaliadau cyfalaf uchel a thaliadau canolog eraill, ond ceisio lleihau costau gweithredu. Serch hynny, os caniateir i'r ymagwedd

14 "The current social care system is in crisis and not fit for purpose." Labour, 2019
Social care system 'unfit for purpose' Anne Longfield, chair of the Commission on Young Lives and the former children's commissioner, 2021
Social care system 'not fit for purpose'; say nine out of 10 MPs, The Independent, 2017

8.1 Mae yna gydnabyddiaeth eang nad yw'r system ofal bresennol yng Nghymru a gweddill y DU yn addas i'r diben.¹⁴ Er y gall darparwyr yn y sector preifat ddadlau

8. Crynodeb o'r achos dros ddarpariaeth gyhoeddus

7.4 Defnyddir y term 'gotal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' yn aml i ddisgrifio system sy'n gallu canolbwyntio ar anghenion derbynwyr gwasanaeth unigol. Rhaid i system o'r fath allu ymateb i ystod eang o anghenion gyda chymorth ac ymyriadau priodol. Bydd y rhain yn cynnwys gwahanol lefelau o ofal yn y cartref, o ddarpariaeth cymorth cartref i gymorth ar gyfer anghenion cymhleth; gotal yn yr ysbity pan fo angen; ailalluogi i helpu pobl i ddyrchwelyd a gotal preswyl pan na allant wneud hynny. Oni bai bod y gwasanaethau hyn, sydd ar hyn o bryd ar wahân ac yn dameddiog, yn cydweithio i ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr, ni all y ddarpariaeth gyffredinol ganolbwyntio ar yr unigolyn mewn gwirionedd.

7.3 Mae awdurdodau lleol mewn sefyllfa unigrw i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â'r gymuned ehangach ar lefel strategol. Gall hyn fod o fudd wrth fynd ati i gynllunio gwasanaethau, ond rhaid iddynt hefyd sicrhau bod rhywfaint o gysondeb o ran yr hyn a ddarperir o fewn ac ar draws ardaloedd awdurdodau lleol.

7.2 Gellir ystyried bod cyd-gynhyrchu yn gyferbyniol i ddulliau iwtillitaraidd traddodiadol o gynllunio gwasanaethau cyhoeddus, lle mair brit egwyddor yw llesiant cymdeithasol yn hytrach na llesiant unigol. Yn ymarferol, mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus sicrhau cydbwysedd rhwng nifer o anghenion a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, gan gynnwys anghenion defnyddwyr gwasanaethau'r presennol a'r dyfodol, yn ogystal â'r cyhoedd yn ehangach y mae gwasanaethau'n cael eu hariannu o'u trethi.

Wedi'i bersonoli – gwasanaethau iechyd a gotal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau unigol gan gynnwys yn eu dewis iait; meddygaeth fanwi; cynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gotal a'u triniaeth; rhoi cymorth i bobl reoli eu gotal a'u deilliannau eu hunain.

Llais – grymuso pobl â'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddeall ac i reoli eu hiechyd a'u llesiant, i wneud penderfyniadau am ofal a thriniaeth yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig'idd yn nhw. Hefyd cyfranau at wella ein hagwedd system gyfan at iechyd a gotal; cyfathrebu amserol a chlr a chydgyssylltu fel sy'n briodol i oedran a lefel dealltwriaeth.

gan gynnwys cyflymu adferiad ar ôl triniaeth a gotal, a chynorthwyo â hunanreolaeth o gyflyrau hirdymor.

Annibyniaeth – cynnig cymorth i bobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, bod yn wlyd ac yn annibynnol am gyfnod hwy, yn eu cartrefi a'u hardaloedd eu hunain,

Mae cyd-gynhyrchu'n elfen allweddol o'r egwyddorion a ddisgrifir yn y ddogfen 2019, Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n derm a all olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ond mae tair o'r egwyddorion yn arbennig o berthnasol:

7. Cyd-gynhyrchu

6.9 Os mair nod yw lleihau'r arian sy'n cael ei gollu ar ffurf elw i gwmnïau dalïannol neu elw i fuddsoddwyr, mae creu elfen sylweddol o ddarpariaeth uniongyrchol yn ffordd llawer mwy sicr o gyflawni'r nodau hyn na hyrwyddo contractio allan i fentrau cymdeithasol.

6.8 Mae Ymddiriedolaethau Hamdden, a sefydlwyd gan awdurdodau lleol â'r un nod o fantaisio ar y gostyngiadau mewn trethi lleol sydd ar gael i elusennau yn y sector, hefyd yn aml yn ailfrandio mewn ffyrdd sy'n eu datgysylltu oddi wrth y corff a'u creodd ac sydd fel arfer yn darparu bron y cwbl o'u hincwm. Mae Celtic Leisure, sydd bellach wedi'i gymryd yn ôl gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn un o lawer o enghreifftiau o gwmnïau o'r fath.

6.7 Mae llawer, os nad y mwyaf, o'r cymdeithasau trosglwyddo stoc bellach wedi'u llyncu gan gymdeithasau tai mawr ac yn y bôn nid ydynt yn bodoli mwyach. Mae rheolaeth leol ac atebolrwydd wedi diffianu i raddau helaeth, i'w disodli gan y strwythurau grŵp cymhleth sy'n gysylltiedig â busnesau mawr. Mae cymdeithasau trosglwyddo stoc sydd wedi gwrthsefyll uno a chaffael wedi tueddu i ymbellhau oddi wrth yr awdurdodau lleol y maent wedi deillio ohonynt.

6.6 Mae hanes trosglwyddo stoc tai dros ddau ddegawd cyntaf yr unfed ganrif ar hugain yn enghraifft dda o duedd cyflwynwr preifat i symud i sefyllfa lle mae nifer fach o gwmnïau'n dominyddu'r farchnad (oligopol). Mewn ymgais i symud buddsoddiad mewn tai cyhoeddus y tu allan i reolaethau cyfartal y sector cyhoeddus, roedd llywodraeth y DU o blaid hyrwyddo trosglwyddo i gwmnïau tai a sefydlwyd yn lleol at ddiben arbennig, nad ydynt yn dosbarthu elw. Roedd yn rhaid i drosglwyddiadau o'r fath gael cefnogaeth gan fwyaf y tenantïaid, oedd yn pleidleisio ar sail cynigion a oedd yn ddieithriad yn cynnwys lefelau uchel o gyfranogiad gan y tenantïaid mewn llywodraethiant ac ymrwymiad lleol. Roedd hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau cefnogaeth gan fwyaf y tenantïaid, a pham bod y mwyafrit helaeth o drosglwyddiadau cyffredinol wedi bod i gyffwrdd lleol newydd eu creu yn hytrach nag i gymdeithasau tai oedd yn bodoli eisoes.

6.5 At hynny, mae economeg y diwydiant gofal preswyl yn effeithio ar ddarparwyr nid-er-elw, yn union fel y mae ar ddarparwyr bach sy'n ceisio gwneud elw. Mewn hinsawdd o brynu ac uno busnesau, mae deiliad presennol naill ai'n dargedau ar gyfer cael eu cymryd drosodd neu'n awyddus i ehangu drwy ddilyn y llwybr hwnnw eu hunain.

6. Achos cyfreithiol

- 6.1 Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i amlinellu yn Nedd Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.¹³ Daeth y darn cynhwysfawr hwn o ddeddfwriaeth i rym yn 2016. Mae'r Ddeddf yn creu nifer o ddyletswyddau trostfaol, gan ddechrau gyda hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth (a gofaliwr sydd angen cefnogaeth). Nid yw'n atresymol dehongli hyn yn nhermau sail statudol i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o'r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i ariannu gofal cymdeithasol yn cael eu collu yn sgil costau cyfaliat uwch na'r angen neu elw preifat. Yn wir, mae'r Ddeddf ei hun yn cefnogi'r strwythur hwn drwy greu dyletswydd gadarnhaol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a'r trydydd sector yn y ddarpariaeth yn eu meysydd gofal a chymorth a chefnogaeth i ofaliwr'.
- 6.2 Er bod elfen sylweddol o ddarpariaeth gofal cymdeithasol nid-er-elw yng Nghymru, mae'n bwysig bod yn glir sut mae gallu comisiynwyr i ffatrio cwmnïau nid-er-elw dros ddarparwyr allanol eraill yn cael ei gyfyngu gan reolau caffael y sector cyhoeddus, ond hefyd i ba raddau y gellir rhwymo asiantau cyfienwi nid-er-elw i gadwyn gyfienwi sy'n cynnwys dolenni sy'n unrhyw beth ond nid-er-elw.
- 6.3 Mae Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 yn caniatáu i gontactau ar gyfer gofal cymdeithasol gael eu 'neilltuo' ar gyfer darparwyr menter gymdeithasol gan fod hyn yn darparu mecanwaith ar gyfer cefnogi'r math hwn o ddarpardd yn rhagweithiol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gellir cynnig contractau'n uniongyrchol i fenter gymdeithasol benodol, ond mae'n caniatáu cyfyngu cynnigion gan y darparwyr hynny sy'n perthyn i'r categori hwn ac nad ydynt wedi cael contract wedi'i neilltuo o fewn y tair blynedd flaenorol. Mae'r amod olaf hwn i bob pwrpas yn atal darpardd menter gymdeithasol cyfredol rhag cael ei amddiffyn yn barhaol rhag cystadluu euaeth ehangach yn y farchnad. Ni all telerau contract o dan y ddarpariaethau hyn fod yn hwy na thair blynedd.
- 6.4 Er nad yw pob 'menter gymdeithasol', fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth, mewn gwirionedd yn sefydliaadau nid-er-elw, mae sawl enghraifft o sut y gellir defnyddio darparwyr gwasanaethau sy'n canoldwynnïo ar fudd cyhoeddus fel cyfrwng i gynhyrchu elw i riant gwmnïau a/neu fenthycwyr. Mae gostwng trethi lleol ar gyfer adeliadau darparwyr chwaraeon a hamdden wedi arwain at greu nifer o ymddiriedolaethau hamdden hybrid fel y'u gellwir sydd ynghlwm â thalu am wasanaethau prif swyddfa a/neu gyfleusterau benthycu a ddarperir ar sail elw. Er nad yw'r model busnes yn arwain at y lefel o elw a wellir yn y diwydiant gofal preifat, mae serch hynny'n dangos diffyg mawr yn y rhesymeg o ffatrio darparwyr menter gymdeithasol.

¹³ Gov. Wales, Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, the Essentials, 2019

Darpariaeth dameidlog

- 5.31 Er bod darpariaeth dan berchnogaeth breifat yn parhau i fod yn flaenllaw, nid oes unrhyw wrthbwyso ar gyfer model sy'n anochel yn blaenoriaethu elw ar fuddsoddiad dros lesiant gofaliwr neu'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. Byddai ehangu'r ddarpariaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd ac sy'n cael ei hariannu drwy fenthycia cyhoeddus, yn creu'r gwrthbwyso hwnnw drwy gynnig dewis amgen sy'n dryloyw yn ariannol o gymharu â'r farchnad breifat.
- 5.32 Mae cyfraddau llog ar fenthyciadau yn y sector cyhoeddus fel arfer yn sylweddol is na'r hyn sydd ar gael i fenthycwyr preifat. Mae cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus wedi cynyddu dros y misoedd diwethaf ond maent yn dal i fod yn is na 2% ar hyn o bryd. Hyd yn oed heb effaith chwyddiannol buddsoddiad hapfanachol mewn gofal preswyl, mae cost cyfalfat darpariaeth gan y cynngor yn sylweddol is na buddsoddiad preifat lle mae elw ar gyfalfat yn 11%.¹² Mae costau cyfalfat is yn golygu costau gwasanaeth is.

Gofal yn y Cartref

- 5.33 Mae'r busnes gofal yn y cartref yn wahanol iawn i ofal preswyl gan ei fod yn gymharol ysgafn o ran asedau. Serch hynny, mae'n golygu'r un math gostau yn erbyn incwm, o ran y ddyled yn sgil prynu asedau ar hap a gwerth asedau anniriaethol megis ewylllys da ar y fantolen. Mae ewylllys da fel arfer yn cyfeirio at y budd canfyddedig sy'n deillio o fod yn rhan o grŵp, wedi'i rannu dros ugain mlynedd o bosib a'i nodi ar fantolen y cwmni gweithredu.
- 5.34 Mae cwmnïau dallianol yn tynnu incwm oddi ar weithredwyr, gan greu rheidrwdd cryf i leihau costau gweithredu, set costau staff yn bennaf. Mae tál isel fesul awr yn un elfen o hyn, ond mae tystiolaeth gan weithwyr gofal yn dangos bod pwysau i leihau costau hefyd yn effeithio ar glieñtiaid trwy arferion fel 'tocio', lle na chaniateir digon o amser ar gyfer teithio rhwng clieñtiaid, sydd wedyn yn dwyn amser y gall y gofaliwr dreulio gyda nhw.
- 5.35 Mae darparydd gofal cartref mwyaf y DU yn masnachu o dan yr enw Helping Hands. Helping Hands yw enw gweithredol Midlands Care Ltd. Er bod y strwythur y mae'r cwmni hwn yn perthyn iddo yn llawer llai cymhleth na'r Priory Group, mae serch hynny yn rhan o grŵp o gwmnïau, yn yr achos hwn sy'n eiddo i Holt Hold Co Ltd.

¹² Report from National Commissioning Board Task & Finish Group, Costing methodologies and cost pressures in adult care homes, domiciliary care and supported living services in Wales, January 2021.

sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol i leihau faint o dreth maent yn ei thalu. Gallant ddadlau bod trefniadau o'r fath yn caniatáu iddynt weithredu ar lefelau ffioedd a fyddai fel arall yn gortod bod yn uwch, ond rhaid gwrthbwyso unrhyw arbedion i'r pws cyhoeddus yn erbyn treth sy'n cael ei hosgoi.

Cymhorthdal cudd a dellir gan hunan-arianwyr

5.28 Wrt h i ffioedd gynyddu ynghyd â chyfyngiadau ar wariant cyhoeddus, mae'r trothwy ar gyfer mynediad at ddarpariaeth a ariennir yn gyhoeddus wedi codi. O ganlyniad i hyn, mae llawer o bobl yn cael eu gortodi i ariannu eu gofal eu hunain, a llawer mwy yn cael eu hunain yn gortod ychwanegu at y cyllido a ddaw gan y cynngor - mae dros hanner y refeniw gofal yn dod gan unigolion preifat. Mae tystiolaeth helaeth bod llawer o gartrefi gofal yn ddibynnol ar y ffynhonnell hon o gyllid a bod y rhai sy'n ariannu eu hunain yn talu ffioedd uwch am yr un lefel o ofal â'r rhai sy'n cael eu hariannu gan y cynngor.

Diffyg cymhellion i flaenoriaethu ataliaeth

5.29 Er bod cydnabyddiaeth gyffredinol erbyn hyn y gall darparu ar gyfer anghenion gofal lefel isel atal neu ohirio'r angen am anfon unigolion i'r ysbdyt neu fynd i gartref preswyl, sydd yn llawer mwy costus, nid yw hyn bob amser yn cael ei adlewyrchu yn ymarferol. Anaml y mae cynghorau'n darparu gwasanaethau cymorth cartref ar lefel unigol, er y bu rhywfaint o gynnydd o ran datblygu mecanweithiau ar gyfer trosglwyddo cyllid o'r GIG i wasanaethau lled-ataliol, megis hamdden, parciau neu lyfrgelloedd. Mewn rhai ardaloedd o'r wlad, er enghraifft, mae meddygon teulu yn gallu cael mynediad at wasanaethau hamdden ar bresgripsiwn. Ar y cyfan fodd bynnag, mae'r duedd wedi bod i'r gwrthwyneb, gyda chylliddebau cynghorau yn dioddef y toriadau mwyaf yn sgil cyni ac, yn achos gofal cartref, cynnydd cyson yn y trothwy ar gyfer darparu gwasanaethau. Felly, er bod rhai enghreifftiau rhagorol o sut y gall cymorth gyda thasgau yn y cartref liniaru'r angen am wasanaethau gofal ffurfio a gohio'r angen am ddarpariaeth breswyl, nid yw'r rhain ar gael am ddim yn y rhan fwyaf o achosion, ac nid ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol.

5.30 O ran darpariaeth gyhoeddus, mae creu cyrff cydgyssylltiedig (y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru) i ddarparu cyfrwng ar gyfer datblygu strategaeth draws-sector yn gydnabyddiaeth amlyg o'r angen am ddull di-dor. Serch hynny, mae strwythur yr economi gofal yn parhau i annog buddsoddiad mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar adeiladau dros ddatblygu gwasanaethau gofal lefel isel. Mae'n amlyg nad yw o fudd i'r mwyafrif helaeth o ddarparwyr gofal preswyl i flaenoriaethu gofal yn y cartref; yn yr un modd, nid oes ganddynt ddi-ddordeb mewn datblygu gwasanaethau ataliol personol na gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hyfnydd masnachol gofal preswyl yn dibynnu ar alw cyson gyda'r rhan fwyaf yn gweithredu ar ragdybiaeth o lefelau preswyl o 80% neu'n uwch. Mae'r weledigaeth o integreiddio di-dor yn annhebygol o gael ei gwreiddu mewn system lle nad yw blaenoriaethau cyfnewt yr wedi'u hallinio â rhai'r prynwyr.

Cwyddiant yn sgil methiant contract pan nad oes dewis arall yn y sector cyhoeddus

5.24 Lle mae darparwr yn mynd i'r wal, a bod yn rhaid gwneud trefnidau amgen yn gyflym, mae'n debygol iawn y byddant yn ddrytach na'r gwasanaethau y maent yn eu disodli. Mae hyn oherwydd llai o gystadlaethau a'r brys i roi trefnidau ar waith. Heb unrhyw gapasiti ar gyfer darpariaeth uniongyrchol, gall cynghorau gael eu gortodi i gyfuno i gontactau tymor byr gyda phrisiau uwch. Mae cyflogau isel ac amodau gwaith gwael yn arwain at anawsterau o ran recriwio a dargaddwedd, gan waethygu anallu darparwr cyhoeddus a phreifat i ddatblygu capasiti newydd. Roedd hwn yn un o'r ffactorau allweddol a ysgogodd Sir Benfro i sefydlu eu gwasanaeth mewnol

Costau yn deillio o gyfraddau trosi uchel – hyfforddiant, recriwio a.y.b.

5.25 Mae cyflogau isel, gwaith anodd ac amodau beichus yn anochel yn golygu bod swyddi yn y sector gofal yn llai deniadol na llawer o swyddi eraill sy'n talu cyflogau tebyg. Nid oes amheuaeth bod llawer o bobl yn dewis aros yn y sector er gwaethaf hyn am resymau galwedigaethol, ond mae llawer serch hynny yn gadael am well cyflog ac amodau mewn swyddi llai drys. Y canlyniad yw cyfraddau trosi uchel ac o ganlyniad costau recriwio a hyfforddiant uchel. Mae'r costau hyn yn cael eu trosglwyddo i ffrwydd wrth i ddarparwr geisio adennill costau. Mae lefelau uchel o drostiant staff hefyd yn effeithio ar ansawdd gwasanaethau ac yn cael effaith andwyl ar lawer o'r rhai sy'n derbyn y gwasanaethau hynny, pobl y mae dilyniant a chysondeb gofal yn arbennig o bwysig iddynt.

Y gost i bwrs y wlad o gynnal cyflogau isel – budd-daliadau, llai o dreth incwm a.y.b.

5.26 Mae cyflogau isel yn lleihau'r costau i'r cwmnïau sy'n rhedeg y gwasanaethau ond yn creu costau i gymdeithas. Yn y bôn, cymorthdaliadau i gyflogwyr cyflog isel yw budd-daliadau i'r rhai sydd mewn gwaith. Mae isatwswm cyflog statudol yn helpu, ond mae llawer o weithwyr gofal yn rhan-amser ac mae eu cyflogaeth yn ansicr, sy'n golygu bod yn rhaid iddynt ddibynnu ar gredyd cynhwysol yn aml i dalu am gostau tai ac i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae perthynas groes rhwng costau darparwr a'r gost i gymdeithas. Po isaf yw'r bil cyflog, yr uchaf yw'r gost i gymdeithas o gynnal y gweithwyr hynny. Er bod rhywfaint o arbëdion yn cael ei gwneud o ran lefel ffrwydd, mae economeg y system ofal yn golygu mai'r arianwyr sy'n elwa fwyaf o gyflog isel. Mae'r rhai sydd mewn gwirionedd yn darparu'r gofal yn derbyn cyflog isel, ac mae eu sefyllfa'n cael ei dwysáu gan amodau gwaith sy'n golygu y gwrthodir iawndal iddynt am amser teithio, atodladau am gyysgu-i-mewn a hyd yn oed tal pan fyddant yn sal.

Refeniw treth a gollir yn sgil strwythurau 'treth-ffeithlon'

5.27 Fel y trafodwyd uchod, mae cwmnïau'n gweithredu ar elw isel ac mewn rhai achosion, elw negyddol; felly nid ydynt yn talu fawr ddim treth gortforaeth, os o gwbl. Gall hyn fod o fudd i'r cwmnïau dallianol a chyllidwyr cwmnïau gofal, a all fod yn gwmnïau buddsoddi preifat sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU. Mewn rhai achosion, gall y gwahanol gwmnïau dan sylw fod yn rhan o'r un grŵp, gan fabwysiadu strwythurau

ddadleuon cyfreithiol hirfaith a chostus. Gall cleientiaid fod yn gynnwys o ddefnyddio cymalau cosb lle bydd y rhain yn achosi anawsterau ariannol i gyflenwyr ac yn cynyddu'r potensial i sefydluadaw sydd eisoes yn ansicr fynd i'r wal, oherwydd pan fyddant yn gwneud hynny, mae unrhyw risg gytundebol o ochr y cyflenwyr yn fel arfer yn mynd yn ôl i'r cynngor neu goffi cyhoeddus arall sy'n rhan o'r contract.

Cost 'codi'r darnau' pan fydd darparwyr yn methu

5.21 Mewn marchnad damcaniaethol gyda chystadlaethau berrfaith, mae methiant cyflenwyr aneffeithlon yn agwedd hanfodol ar sut mae'n gweithio. Mae cyflenwyr nad ydynt yn gallu talu eu costau am bris y farchnad yn mynd i'r wal, a chael eu disodli gan rai sy'n gallu rheoli eu costau yn well. Mewn marchnadoedd preifat gall hyn achosi anghyfleustra i brynwyr (ac wrth gwrs, mae'n drychinebus i'r gweithwyr) ond yn y rhan fwyaf o achosion mae'n cael ei gydnabod fel rhan annatod o'r system economaidd. Fodd bynnag, nid dyna yw'r achos pan fo'r gwasanaeth a ddarperir yn wasanaeth cyhoeddus, yn enwedig un y mae gan y rhai sy'n ei dderbyn hawl gyfreithiol i'ddo. Os bydd darparwyrdd gotal preifat yn methu, nid oes gan y coffi cyhoeddus mae'n darparu gwasanaethau ar ei ran unrhyw ddewis ond gwneud trefnidau amgen. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â hyn ar'r anghyfleuster i'r rhai sy'n derbyn gotal yn gymhelliant i gyffwrdd cyhoeddus gytuno i unrhyw gynnydd mewn ffoedd er mwyn ceisio atal methiant ond lle mae'n digwydd, fel yn achos Southern Cross, mae'n dal yn debygol o arwain at gynnydd mewn costau.

5.22 Mae profiad Cynngor Sir Benfro, yn wneub yr ansicrwydd a gododd pan aeth Allied Healthcare i drafferthion, yn enghraifft dda o ba mor ansicr y gall trefnidau contractio allian fod, hyd yn oed gyda chyflenwr mawr sy'n ymddangos yn ddiogel. Roedd Allied Healthcare yn enghraifft nodweddiadol o strwythur cwmni cymhleth y mae ei dratodion ariannol yn anodd iawn i'w deall. Yn 2015 cofnododd y prif ddarparwyrdd gwasanaeth ar gyfer gotal preswyl yn y grŵp, Nestor Primicare Services, reffeniw o ychydig dros £200m ac elw o £17m. Y flwyddyn ganlynol, ar drosgiant tebyg gwnaeth golled o £13m. Roedd y golled yn ymwneud â chwmnïau eraill o fewn y grŵp heb dalu arian a oedd yn ddyledus iddynt a bod y cwmni o'r Almaen Aurelius SE & Co KGaA wedi prynu'r grŵp.

5.23 Ym mis Mai 2018 ymrwymodd Nestor i Gytundeb Gwrtfoddol Cwmni (CVA) gyda'i gredydwyr, ac yna'r Comisiwn Ansawdd Gotal (CQC) yn cyhoeddi'r hyn a elwir yn Hysbysiad Cam 6, yn rhoi gwybod i gwsmeriaid Awdurdod Lleol bod y cwmni mewn perygl o fethu. Aeth i ddwylo'r gweinlyddwyr ym mis Tachwedd y flwyddyn honno, gan greu problemau mawr i'w gwsmeriaid, ei weithlu a'i glieientiaid. Roedd Sir Benfro eisoes wedi cytuno mewn egwyddor y byddai greu gwasanaeth mewnol yn cael gwared ar rywfaint o'r ansicrwydd sy'n cael ei greu yn sgil dibyniaeth gyfan-gwbl ar gwmnïau preifat. Roedd y newyddion bod un o'i gyflenwyr mewn perygl o fethu yn atgyfnerthu'r farn hon, a symudodd y Cynngor yn gyflym i greu darpariaeth sefydlog gyda'r nod allweddol o sicrhau cyflogaeth y gweithlu gotal cyn iddynt bleidlaisio â'u traed a chwilio am waith arall y tu allan i'r sector gotal.

5.20 Mynegir cost gwasanaethau ar gontract allanol yn aml yn nhermau taliadau a wneir i gontractwyr. Mewn gwirionedd, dim ond un elfen o'r gost yw hon. Y llall yw'r gost sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cleientiaid. Mae costau ochr y cleient yn cynnwys costau caffael a rheoli contractau a all fod yn uchel, yn enwedig pan nad yw perfformiad cyflwynwr yn bodloni gofynion neu ddisgwyliadau. Gall mecanweithiau cytundebol fod yn feichus gydag ymdrechion i'w gweithredu yn aml yn dwysau'n

Cost gudd rheoli contractau a chaffael

gadael yr economi.

5.19 Fel y trafodwyd, mae'r model cyllido mwyaf cyffredin yn yr economi gofal cymdeithasol yn gyfrifol am gollï dros 20% o'r incwm o'r system otal ei hun i bŵerchnogion ac artianwyr y cwmnïau sy'n rhedeg y cartrefi. Mae'r rhan fwyaf os nad pob un o'r rhain wedi'u lleoli y tu allan i ardaloedd y cynghorau sy'n darparu cyllid, ac mewn llawer o achosion y tu allan i Gyru. Amcangyfrifir bod cyfanswm y gwarantiant ar otal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru yn £1.2bn, ond mae gwerth economaidd posibl y gwarantiant hwn yn sylweddol uwch na hyn – tua £2.3bn.¹¹ Mae colled uniongyrchol o 20% neu fwy o hyn yn gyfystyr â cholled sylweddol i'r economi gyfan. Bydd y golled hon o ran budd economaidd yn parhau tra bod sefydliadau gofal yn dal i fod yn eiddo i hapfasnachwyr. Byddai dod â chyfran sylweddol ohonynt dan bŵerchnogaeth y cynngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y gyfran o wariant ar otal sy'n

Colli Gwerth Economaidd i'r Economi Leol ac Economi Gyru

5.18 Ar wahân i'r ffath nad yw'n debygol y bydd marchnadoli'n arwain at y gost isaf, gall defnyddio cyflwynwr preifat i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gynyddu costau cyffredinol mewn ffyrdd nad ydynt bob amser yn amlyg. Trafodir y rhain isod:

5.17 Un o nodweddion y farchnad ar gyfer gofal cymdeithasol yw rhwystrau uchel rhag mynediad o'r ochr cyflenni; yn ogystal â hynny, nid yw'r galw'n sensitif i brisiau cynyddol. Mewn jargon buddsoddi mae'n rhan o'r hyn a elwir yn sector amddiffynnol, sy'n cael ei weld fel hatan ddiogel i fuddsoddwyr, yn union oherwydd bod y galw'n parhau'n gyson ar adegau o ansicrwydd. Am y rheswm hwn, nid yw'n ddiogel tybio y bydd cystadleuaeth yn sicrhau effeithlonrwydd. Nid yw ychwaith, am y rhesymau a drafodwyd uchod, yn iawn i dybio bod elw cyffredinol yn isel dim ond oherwydd ei fod yn isel neu'n negyddol i gwmnïau darparu.

5.16 Yn achos nwyddau neu wasanaethau y mae prynwyr yn eu hystyried yn hanfodol, mae'r diffyg cystadleuaeth effeithiol ar ran cyflennwr yn cael ei waethygu gan ddiffyg hyblygrwydd o ran prisiau ar ochr y galw – yn y bon, nid yw prisiau cynyddol yn arwain at ostyngiad yn y galw am nwyddau neu'r gwasanaethau dan sylw; mae prynwyr yn lleihau'r galw am nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol yn gyntaf. Mae hyn i'w weld yn glir yn ystadegau gwarantiant awdurdodau lleol o'r cyfnod ar ôl 2009 pan effeithiwyd cryn lawer llai ar y sector gofal o gymharu â gwasanaethau amgylcheddol, wrth i lymder effeithio ar gyllidebau cynghorau.

5.15 Nid yw'r rhan fwyaf o farchnadoedd yn gweithredu fel hyn yn y byd go-iawn. Yn gyntaf, does mo'r fath beth â chystadleuaeth berraf. Mae rhwystrau i fynd i mewn ac allan o farchnadoedd sy'n gweithredu i leihau bygythiad cystadleuol. Mewn llawer o farchnadoedd gall hyn gynnwys cyflwynwyr presennol yn mynd ati i drefnu i'w gwneud yn anodd i gwmnïau newydd ymsefydlu ac mewn eraill, mae yna rhwystrau a godwyd yn fwrddol gan brynwyr. Mae'r cyntaf yn cynnwys cymdeithasau masnach cryf a lobiio effeithiol dros safonau o fewn y diwydiant, tra bod yr olaf yn cynnwys safoni, systemau caffael beichus a thelerau cytundebol hirfath. Gallai'r holl betau hyn fod yn dderbyniol mewn cyd-destun gwahanol ond serch hynny, maent yn camliwio'r berthynas rhwng galw, cyflwyniad a phrisiau.

5.14 Mewn marchnad sydd â'r hyn a elwir yn 'gystadleuaeth berraf', h.y. lle mae cyflwynwyr yn gallu dod i mewn a gadael fel y mynnant, bydd prisiau'n disgyn i'r lefel isaf sy'n caniatáu i gwmnïau effeithlon dalu eu costau (sy'n cynnwys elw ar lefel sy'n eu cadw rhag newid i farchnad sy'n cynnig elw gwell). Mae cwmnïau aneffeithlon yn mynd i'r wal ac mae rhai effeithlon yn cael eu cymell i chwilio am ostyngiadau pellach yn eu costau. Fodd bynnag, gall prisiau godi hefyd er mwyn annog cyflwynwyr newydd i fodloni lefelau uwch o alw. Mewn marchnad arferol mae'r galw yn sensitif i gynnydd mewn prisiau ac felly'n cael ei arafu gan unrhyw gynnydd mewn prisiau. Yn y modd hwn y pris sy'n cydbwysu cyflwyniad a galw ac, yn ôl y ddamcaniaeth, i ddogni adnoddau cyfyngedig, tra ar yr un pryd, yn darparu cymhelliant i gwmnïau leihau costau er mwyn sicrhau llwyddiant yn erbyn y gystadleuaeth.

5.13 Mae nifer o resymau pam nad yw'r farn or-symil hon am farchnadoedd yn wir yn gyffredinol, ond mae'n arbennig o broblemus yn achos gwasanaethau cyhoeddus hanfodol, lle nad yw'r berthynas rhwng cyflwyniad, galw a phrisiau yn un symil.

5.12 Mae pobl yn dadlau weithiau bod marchnadoll'r ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ysgogi effeithlonrwydd er mwyn sicrhau gwerth am arian cyhoeddus. Y ddamcaniaeth yw bod cystadleuaeth yn y farchnad yn gwithio prisiau i'r lefel isaf lle mai dim ond cyflwynwyr effeithlon sy'n gallu goroesi. Mae colli rhywfaint o arian cyhoeddus i elw preifat yn cael ei ystyried yn bris gwerth ei dalu i withio costau i lawr i'r lefel isaf y gellir darparu'r gwasanaethau hyn.

5.11 Mae'n sicr y byddai ymriad gan y llywodraeth i ortodi gweithredwyr preifat i gynnig gwell tâl ac amodau'n cael ei groesawu gan staff gotal, ond o dan y model presennol byddai hyn yn arwain yn anochel at alw am gynnydd mawr mewn ffiocedd ar gyfer trigolion a rienir gan y cyngor. Byddai cyfran o unrhyw gynnydd mewn ffiocedd yn mynd i gynnal lefelau incwm y buddsoddwyr. Fe bai darparwyr yn mynd i'r wal, byddai hyn yn creu gostyngiad yn y cyflwyniad, a fyddai, yn ei dro, yn creu chwyddiant mewn marchnad lle mae'r galw fwy neu lai yn gyson.

5.10 Fe bai cynnydd mewn ffiocedd yn cael ei ganiatáu, byddai hyn yn arwain yn anochel at chwyddiant pellach mewn gwerthoedd cyfartal ac o ganlyniad lefelau uwch o ddyled ar fantolenni. Byddai hyn yn annhebygol o olygu gwell cyfiog ac amodau, o ystyried y rheidrwdd syfaenol i gadw costau gweithredu ar lefel isel iawn. Ni fyddai ychwaith o reidrwdd yn gwella sefyllfa'r gweithredwyr, o ystyried y byddai gwerthoedd cyfartal chwyddedig yn ymddangos yn eu mantolenni.

Mae RemedcoUK Holding yn eiddo i AHC-WW-Jersey Ltd sydd yn ei dro bellach yn eiddo i Waterland Private Equity a'i prynodd gan y cwmni Americanaidd, Arcadia Healthcare. Cwmni o'r iseldiroedd yw Waterland sydd â buddiannau mewn nifer fawr o gwmnïau sy'n newid yn gyson.

5.5 Mae'r Priory Group ei hun yn cynnwys nifer fawr o gwmnïau – mae cyfrifon diweddaraf y grŵp yn cynnwys rhestr sy'n ymestyn i 5 tudalen.⁹ Mae llawer o'r cwmnïau hyn eu hunain yn gwmnïau dalïannol mewn strwythur sy'n anodd ei dreiddio ac sy'n cynnwys sawl cadwyn â brand fel Partnerships in Care. Mae un o gwmnïau dalïannol y Priory Group, sef Priory Group Holdings Number 2, wedi'i gofrestru yn Ynysoedd y Cayman.

5.6 Nid yw cyfrifon cwmnïau gweithredu unigol y Priory Group, y mae llawer ohonynt yng Nghymru, yn cael eu cyhoeddi, gan ei gwneud yn amhosibl mesur pa mor dda y maent yn perfformio. Ar y cyfan, gwnaeth y grŵp gollod enfawr yn 2020 o £270m, er gwaethaf EBITDARM o £157m. Mae'n anodd deall pam fod hyn yn digwydd, ond mae'n amlwg bod Waterland Private Equity yn gweld potensial i ad-ennill gwerth eu buddsoddiad sydd, yn ôl eu gwfan, yn nodweddiadol 'drwy werthu neu gynnig yn gyhoeddus (IPO) y cwmni y bu iddynt fuddsoddi ynddo' gyda chyfnod dal cyfartalog o 3 i 7 mlynedd.¹⁰

5.7 Yn y pen draw, mae 'gwerth' y buddsoddiad yn y Priory Group yn deillio'n bennaf o ffrïoedd a delir gan gynghorau'r DU, y GIG a'r unigolion hynny sy'n ariannu eu hunain. Mae'n anodd peidio â gweld hyn fel colled mewn gwerth o safbwynt y system iechyd a gotal cymdeithasol. O ystyried mai un o'r pedwar nod sy'n perthyn i'r weledigaeth ar gyfer Cymru yw 'iechyd a gotal cymdeithasol o werth uwch', byddai symud oddi wrth system lle mae gwerth yn cael ei gollu yn y modd hwn yn ymddangos yn rhagofnïad amlwg o'r cynllun ar gyfer Gwasanaeth Gotal Cenedlaethol newydd.

5.8 Nid oes unrhyw awgrym nad yw'r Priory Group nac unrhyw gwmni iechyd a gotal arall sy'n gweithredu yn y DU yn gwneud unrhyw beth nad yw'n unol â rheolau a normau cyfrifeg priodol sy'n gysylltiedig â chwmnïau preifat. Fodd bynnag, rhaid cwestiynu a yw treñiadau o'r fath yn cynnig iefel o dryloiywder ac atebolrwydd sy'n gymesur â darparu gwasanaethau y telir amdanant ag arian cyhoeddus.

5.9 Ar wahân i greu cymhlethdod strwythurol, mae ailsrwythurol aml ar ffurf caffael eiddo drwy gyfuno yn arwain at werthoedd cyfalaf chwyddedig. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu'r ddyled sydd ynghlwm â mantolenni cwmnïau gweithredu, gan eu gadael yn agored i unrhyw ostyngiad yn y galw. O ganlyniad, mae ochr darparwy'r farchnad gotal preifat yn edrych yn ansicr, gan ysgogir farn eang bod ffrïoedd cynghorau'n cael eu capio ar iefel rhy isel gyda llawer o ddarparwy'r yn dibynnu ar y rhai sy'n ariannu eu hunain i gynhyrchu incwm digonol i allu goroesi. Mae'n anodd gwychod i ba raddau y mae hyn yn wir mewn gwirionedd ac i ba raddau y mae anawsterau ariannol darparwy'r yn ymwneud â'r model cyfalafu ei hun.

5. Yr economi gŵal cymdeithasol

model comisiynu presennol, er gyswrt safonau (y rhai isaf sy'n dderbyniol?) wedi'u pennu'n genedlaethol. Mae'r dull hwn yn cynnig potensial i'r llywodraeth fwrw ymlaen â gwelliannau mewn safonau, ond mae'n anodd gweld sut y gall hyn arwain at ddarpariaeth gyffredinol neu fynd i'r atafael â diffyg adnoddau lle caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae hyn oherwydd bod economeg y farchnad gŵal preifat yn anochel yn blaenoriaethu ei w ar fuddsoddiad yn hytrach na darpariaeth rheng flaen. Yn ogystal â hynny, oni bai bod y llywodraeth yn gwahardd hunangyllido rywsut, mae'n debygol y bydd y model amli-haen presennol ar gyfer darpariaeth yn parhau, ac ni fydd y gweithlu gŵal yn cael y gydnabyddiaeth a'r tali sydd ei hangen arnynt mor ddifawr.

5.1

Mae cwmnïau preifat yn dominyddu'r ddarpariaeth gŵal preswyl yn y DU. Mae'r farchnad yn ddeniadol i fuddsoddwyr oherwydd ei bod yn cynrychioli risg gymharol isel ond yn cynnig enillion ar gyfaliat sydd fel arfer yn gysylltiedig â buddsoddiadau risg uwch. Mae'n werth £15.2bn y flwyddyn, gyda dros hanner yr arian yn dod gan unigolion preifat. Er bod nifer fawr o gwmnïau bach yn y farchnad, mae yna nifer fach o gwmnïau rhwyngwladol sy'n dominyddu'r farchnad. Yn ôl y Ganolfan er Iechyd a Budd y Cyhoedd (CHI), mae 2,316 o gartrefi gŵal yn y DU (30.8% o gyfanswm nifer y gwelyau cofrestredig) yn eiddo i'r 26 cwmni mwyaf, ac mae eu buddsoddwyr yn eu gweld fel ffynhonnell incwm ac elw.⁶ Yng Nghymru mae yna dros 1,000 o ddarparwyr mewn marchnad gwerth tua £1.2bn.

5.2

Nid yw strwythur y darparwyr gŵal preifat yn dryloyw o gwbl, gyda'r rhan fwyaf o'r cadwyni mawr yn eiddo i gwmnïau dalïannol. Mae'r cwmnïau hyn, a sefydlir yn aml gan fuddsoddwyr preifat, yn tynnu canran uchel o'u henillion i dalu dyledion, dibrisiant asedau, ad-daliadau asedau diriaethol ac anniriaethol a rhent. Amcangyfrifir y gall hyn fod cymaint ag 20% neu fwy o'r hyn a elwir yn, EBITDARM (Incwm Cyn Log, Treth, Dibrisiant, Ad-daliadau, Rhent a Chostau Rheol), sy'n golygu bod y cwmnïau eu hunain, h.y. y darparwyr gŵal, yn aml yn cynhyrchu lefel isel iawn o ran incwm, neu hyd yn oed yn gwneud colled. Gall hyn fod yn effeithlon o ran treth, ond mae'n arwain yn anochel at ymdrechion i leihau costau, a chyflogau'r staff yw'r costau mwyaf mewn lleoliadau o'r fath.⁷

5.3

Fel y trafodwyd uchod, mae cwmnïau sy'n rhedeg sefydliadau gŵal cymdeithasol yn aml yn rhan o strwythurau busnes cymhleth. Un o gwmnïau gŵal mwyaf y DU yw'r Priory Group a gofnododd, yn eu cyfrifon diweddaraf, refeniw o £872m o wasanaethau Iechyd, Addysg a Gŵal Cymdeithasol i Oedolion.⁸ Daw'r rhan fwyaf o'i refeniw o'r GIG ac Awdurdodau Lleol.

5.4

Prynwyd y grŵp yn ddiweddar gan gwmni o'r enw RemedcoUK Ltd, sy'n eiddo i RemedcoUK Holding Ltd. Cafodd y ddau gwmni eu hymgortfori ym mis Rhagfyr 2020.

⁶ Centre for Health and Public Interest, Plugging the Leaks in the Care Home Industry, 2019
⁷ Competition and Markets Authority (CMA), Care homes market study Financial analysis working paper, 2017
⁸ Priory Group Limited, Parent Company Accounts for year ending Dec 2020, Companies House

mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â'u gofal a'u triniaeth; rhoi cymorth i bobl reoli eu gofal a'u deilliannau eu hunain.

Di-dor – gwasanaethau a gwybodaeth sy'n llai cymhleth ac wedi'u cydgyssylltu'n well ar gyfer yr unigolyn; integreiddio proffesiynol cíos, cydweithio, a rhanu gwybodaeth rhwng gwasanaethau a darparwr er mwyn osgoi trosglwyddo rhwng gwasanaethau sy'n creu ansicrwydd i'r unigolyn.

Gwerth uwch – cyflawni gwell deilliannau a phrofiadau i bobl am gost is; gofal a thriniaeth sydd wedi'u cynllunio i gyflawni'r 'hyn sy'n bwysig' ac sy'n cael eu darparu gan y person cywir ar yr adeg gywir; llai o amrywiad a dim niwed.

Selliedig ar dystiolaeth – defnyddio ymchwil a gwybodaeth i ddeall beth sy'n gweithio; dysgu oddi wrth eraill a gweithio gyda nhw; defnyddio arloesedd a gwelliant i ddatblygu a gwerthuso gwell offer a ffyrdd o weithio.

Graddadwy – sicrhau bod arfer da yn cynyddu o lefel leol i lefel ranbarthol a chenedlaethol, ac yn treiddio allan i dimau a sefydliadau eraill.

Trawsnewidiol – sicrhau bod ffyrdd newydd o weithio'n fforddiadwy ac yn gynaliadwy, eu bod yn newid ac yn disodli dulliau gweithredu presennol, yn hytrach nag ychwanegu haen gwasanaeth parhaol ychwanegol at yr hyn a wnawn yn awr

4. Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru

4.1 Catoddd gwledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol ei datblygu ymhellach mewn Papur Gwyn a gyhoeddwyd yn 2021.⁵ Mae'r Papur Gwyn yn sefydlu'r uchelgais ar gyfer creu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

4.2 Mae'r term Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn dwyn i gof egwyddorion syffiaenol y wladwriaeth les: darpariaeth gyffredinol, gynhwysfawr, o ansawdd uchel sydd am ddim yn y lle mae'n cael ei ddarparu. Mae'r GIG hefyd wedi llwyddo i gadw at y syniad y dylai ei wasanaethau gael eu darparu'n bennaf drwy weithlu a gyfllogir i bob diben yn uniongyrchol, gydag ychydig iawn o arian cyhoeddus yn mynd allan o'r system er eil preifat. Mae system gofal iechyd y DU yn gymharol effeithlon – mae gwariant y pen ar iechyd ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd yr OECD ond mae deilliannau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ac yn gymaradwy â'r gwledyddd hynny sy'n gwario fwyaf, felUDA, lle mae'r sector cyhoeddus yn chwarae rhan ymloI mewn system sydd i raddau helaeth yn breifat.

4.3 Nid yw'r weledigaeth a ddisgrifir yn y Papur Gwyn yn rhagweld gwasanaeth a ddarperir yn gyhoeddus yn benodol. Fodd bynnag, mae'n sefydlu'r ffaith y dylai fod am ddim lle caiff ei ddarparu fel egwyddor allweddol, ynghyd â darpariaeth gynhwysfawr ac o safon. Heb gynnydd sylweddol mewn darpariaeth gwasanaethau uniongyrchol fodd bynnag, mae gwasanaeth cenedlaethol i bob pwrpas yn barhad o'r

⁵ Llyw.Cymru, Ail-gydbwysu gofal a chymorth, 2021

Mae'r cynllun hefyd yn rhagweld 'rôl allweddol' ar gyfer y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r 64 Clwstwr o bractisiau meddygon teulu cyfagos, yn ogystal â'r sefydliadau partner sy'n ymwneud â gofal iechyd syftaenol.⁴

3.3

Er bod perygl bob amser y bydd canoli yn effeithio'n negyddol ar fenter leol ac yn defnyddio gormod o adnoddau ar gyfer biwrocratiaeth, mae'r cynllun, fel y'i llunwyd ar hyn o bryd, yn sicrhau cydbwysedd da rhwng yr angen am strategaeth genedlaethol gref a lleoleiddio. Drwy sefydlu 10 egwyddor cynllunio ar gyfer cyflawni pedwar amcan strategol lefel uchel, mae'n creu fframwaith lle gall menter leol ddod i'r amlwg. Y pedwar amcan strategol yw:

- Gwell iechyd a llesiant ymysg y boblogaeth;

- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd gwell a mwy hygyrch;

- Iechyd a gofal cymdeithasol o werth uwch; a

- Gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy, sy'n llawn cymhelliant;

3.4

Mae'r rhain i gyd ar lefel uchel ac yn debygol o gael eu cefnogi'n eang mewn egwyddor – yn wir byddai'n anodd dod o hyd i unrhyw un na fyddai'n cefnogi amcanion sy'n amlwg yn rhai mor fanteisio.

Mae egwyddorion y cynllun fel a ganlyn:

Atal ac ymyriad cynnar - gweithredu i alluogi ac annog iechyd a llesiant da gydol oes; rhagweld iechyd a llesiant gwael.

Diogelwch - nid dim ond gofal iechyd nad yw'n gwneud unrhyw niwed, ond sy'n galluogi pobl i fyw'n ddiofel o fewn teuluoedd a chymunedau, gan ddiogelu pobl rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu wnebu mathau eraill o niwed.

Anibyniaeth – cynnig cymorth i bobl wrth reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, bod yn wydn ac yn annibynnol am gyfnod hwy, yn eu cartrefi a'u hardaloedd eu hunain, gan gynnwys cyflymu adferiad ar ôl triniaeth a gofal, a chynorthwyo â hunanreolaeth o gyflyrau hirdymor.

Llais – grymuso pobl â'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddeall ac i reoli eu hiechyd a'u llesiant, i wneud penderfyniadau am ofal a triniaeth yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig'idd yn nhw. Hefyd cyfrannu at wella ein hagwedd system gyfan at iechyd a gofal; cyfathrebu amserol a chilir a chydgyssylltu fel sy'n briodol i oedran a lefel dealltwriaeth.

Weddi personol – gwasanaethau iechyd a gofal sydd wedi'u teilwra i anghenion a dewisiadau unigol gan gynnwys yn eu dewis iaith; meddygaeth fanwi; cynnwys pobl

3.2 Mae'r cynllun yn pwysleisio y bydd 'ein gwleddigaeth o ymagwedd system gyfan at iechyd a gofal cymdeithasol yn gofyn am ymdrech ar ran y system yn ei chyfarwysdd'. Y bwriad clir yw i hyn gael ei lywio o'r canol, drwy 'Raglen Trawsnewid Genedlaethol', dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol er Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

3.1 Mae gwleddigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol wedi'i nodi yn y ddogfen 2019, Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.³ Mae'n canolbwyntio'n bennaf ar atal ac ymagwedd ddi-dor at wasanaethau, hyd yn oed os ydynt yn cael eu darparu trwy ystod o asiantaethau. Mae'n rhagweld system sy'n cydnabod pwysigrwydd syffiaenol atal trwy fesurau iechyd cyhoeddus effeithiol, ynghyd â darpariaeth gofal o ansawdd, gyda'r nod o gynig cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain, yn hytrach nag ymyriadau iechyd adweithiol mewn ysbtyai.

3. Y Wleddigaeth ar gyfer Cymru

2.4 Mae'r ffaith bod awdurdodau lleol a'r GIG bron â thynnu allan o ddarpariaeth uniongyrchol yn gyfan-gwbl wedi agor y ffordd i ofal cymdeithasol gael ei ail-greu fel cyfie i gwmnïau preifat elwa mewn marchnad sydd i bob diben yn gwarrantu lefel gyson a chynyddol o alw am eu gwasanaeth. Mae natur gofal preswyl sy'n seiliedig ar adelladau yn golygu bod buddsoddwyr mewn cwmnïau gofal cymdeithasol yn canolbwyntio i raddau helaeth ar werth eiddo, a dyma sy'n gyrru (ac yn gallu chwyddo) y farchnad, yn hytrach na'r incwm sy'n tarddu o'r gofal ei hun.

2.3 Mae newid demograffig wedi tanseilio ymrwymiad y wladwriaeth les i gyffredinolïaeth ac ansawdd gofal; bu newid drammatig hefyd yn y ffordd y darperir gofal cymdeithasol. Yn ystod y deugain mlynedd diwethaf, gwelwyd symudiad sylweddol oddi wrth ddarpariaeth y sector cyhoeddus i fodol sy'n seiliedig yn bennaf ar ddarparwyr yn y sector preifat. Doedd ymdrechion llywodraeth Thatcher i agor y sector cyhoeddus i gwmnïau preifat, trwy gymysgedd o breifatiddio a chontractio allan, ond yn rhannol lwyddiannus yn y rhan fwyaf o feysydd darpariaeth cynghorau, ond cafodd effaith aruthrol ar ofal cymdeithasol. Un rheswm am hyn oedd bod Awdurdodau Lleol wedi'u hatal rhag buddsoddi mewn sefydliadau gofal preswyl oherwydd y dreftn ar gyfer caniatâd cyllid cyfalat a oedd ar waitn ar y pryd, a olygodd fod llawer ohonynt yn methu â bodloni'r safonau gofynnol ac fellly'n cael eu gwithio allan o berchnogaeth uniongyrchol ar gartrefi gofal a nyrsio. Yn ôl y Ganolfan er Iechyd a Budd y Cyhoedd (CHPI) "Ym 1979, roedd 64% o weilyau cartrefi preswyl a nyrsio yn dal i gael eu darparu gan awdurdodau lleol neu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG); erbyn 2012 roedd y ffigur hwn yn 6%. Yn achos gofal yn y cartref, roedd 95% yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol mor ddiweddar â 1993; erbyn 2012 roedd y ffigur hwn yn ddim ond 11%".²

gwasanaeth hwn, er gwaethaf cydnabyddiaeth hirsefydlog, bron yn gyffredinol, o'r angen i wneud hynny.

2.2 Y GIG oedd trysor mwyaf y wladwriaeth les. Gellir dadlau bod gofal cymdeithasol cyffredinol i oedolion yn rhan o'r pecyn, ond roedd y dybiaeth rywiolaethol mai menywod di-dâl fyddai prif ddarparwyr gofal i berthnasau oedranus, i bob pwrpas yn gadael darpariaeth y wladwriaeth fel gwasanaeth gweddilliol. Saith deg mlynedd yn ddiweddarach, er bod y GIG wedi goroesi i raddau helaeth gyda'i egwyddorion cyffredinol a ddarperir yn gyhoeddus yn gyflawn, mae yna gydnabyddiaeth bellach bod gofal cymdeithasol i oedolion mewn argyfwng. Mae'r rhesymau am hyn yn gymhleth ac yn ymwneud yn rhannol â llwyddiant y wladwriaeth les ei hun. Ym 1948, pan lanswyd y GIG, doedd dim disgywl i bobl ar gyfartaledd fyw yn hyn na 68. Erbyn 2015 roedd yr oedran wedi codi i 81. O ganlyniad i hyn a natur newidiol y teulu, mae angen gofal ar lawer mwy o bobl nag yr oedd pensïwr wladwriaeth les erioed wedi'i ragweld ac, oherwydd datblygiadau mewn gofal iechyd, maent ei angen am gyfnod hwy. Mae llywodraethau wedi methu'n gyson â mynd i'r afael â goblygiadau ariannu'r

2.1 Roedd creu'r wladwriaeth les ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn drobwnt yn natblygiad polisi cymdeithasol y DU. Yn seiliedig ar weledigaeth 'o'r crudd' William Beveridge, ei nod oedd darparu addysg, iechyd a gofal cymdeithasol cynhwysfawr, o ansawdd uchel ac am ddim, ynghyd â sicrwydd incwm, mewn ymgaïs i ddileu prinder, afiechyd, anwybodaeth, budreddi a seгурdod, sef y pum bygythiad mwyaf i gymdeithas, yn ôl Beveridge. Darparodd Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1946, a lywiyd drwy'r Senedd gan yr AS Cymreig a'r Gweinidog Iechyd, Aneurin Bevan, wasanaeth iechyd cyffredinol, cynhwysfawr, y teir amdano allan o drethi. Y prif ddull o gyflawni hyn oedd gwladol 2,500 o ysbysai, gan greu sail i wasanaeth cyhoeddus lle'r oedd lefel ac ansawdd y gofal yr un fath i bawb, waeth beth fo'u modd.

2. Cefndir a Hanes

1.7 Am y rhesymau hyn mae'r adroddiad hwn yn dadlau bod yn rhaid i 'ddarparu'n gyhoeddus' gael ei gydnabod fel nodwedd hanfodol o unrhyw beth y gellir cyfeirio ato fel Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol.

1.6 Os nad yw creu 'Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol' yn golygu gwasanaeth gofal a ddarperir yn gyhoeddus, ni fydd yn ddim mwy na newid o ran pwy sy'n comisiynu, ac ni fydd yn gwnued unrhyw wahaniaeth gwirioneddol i'r model ar gyfer darpariaeth. Bydd gwasanaethau gofal preswyl yn parhau i fod yn ynghlwm â hapfuddsodiad ym maes tir ac adeiladau. Bydd gwasanaethau yn y cartref yn parhau i fod yn seiliedig ar sicrhau'r gost isaf, sy'n nodwedd amlwg o'r economi gofal cymdeithasol. Bydd y gweithwyr ym maes gofal yn parhau i dderbyn cyflogau isel, a bydd y sector yn dal i fetu â chyflawni disgwyliadau'r cyhoedd yng Nghymru. Yn ogystal, bydd cyfran sylweddol o unrhyw gynnydd mewn cyllido'n mynd i dalu costau cyfalaf chwyddedig ac yn cael ei gollu yn y rhwydwaith o gwmnïau dallianol a rhiant-gwmnïau sy'n aml yn eistedd uwchben y darparwyr rheng flaen.

- 1.1 Mae'r nod o greu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru yn rhywbeth i'w groesawu, a hynny ar fyrder. Mae'r model presennol ar gyfer y ddarpariaeth, sy'n seiliedig ar y farchnad, yn methu â darparu'r ansawdd a'r cysondeb sydd eu hangen ar wasanaeth a rienir gan drethi yn bennaf. Mae'r strwythurau cwmni cymhleth a'r model cyfalafol ansicr sy'n dominyddu'r economi gofal cymdeithasol yn ei gwneud hi'n amhosibl deall yn llawn i bae mae'r arian sy'n cael ei wario ar ofal cymdeithasol yng Nghymru yn mynd mewn gwirionedd. Oherwydd hyn, mae'r un mor anodd bod yn sicr a yw trethdalwyr Cymru yn cael gwerth da am y £1.2bn sy'n cael ei wario'n flynyddol ar y gwasanaeth hollbwysig hwn.
- 1.2 Mae'r rhai sydd mewn gwirionedd yn darparu'r gofal sydd mor hanfodol i ansawdd bywyd miloedd o bobl oedranus a bregus ledled Cymru yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhai sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd. Mae'r gwaith y maent yn ei wneud yn heriol, yn gofforol ac yn emosïynol, ond maent ymhlith y rhai sy'n cael y cyflogau isaf mewn cymdeithas; maent yn gweithio sifftiau hir ac atreolaidd, heb fawr o gydnabyddiaeth o'r rhan hanfodol y maent yn ei chwarae wrth ddarparu gwasanaeth sy'n eiflen hanfodol o system iechyd a gofal cymdeithasol.
- 1.3 Mae'r term 'Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol' yn dwyn i gof y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Seilwyd trysor cenedlaethol gwladwriaeth les y DU ar egwyddorion allweddol cyffredinolïaeth a chysondeb. Mae'n cael ei ariannu o drethi, gydatr holl ddefnyddwyr yn derbyn yr un safon, a hynny am ddim lle bynnag mae'n cael ei ddarparu, waeth beth fo'u modd. Mae hefyd yn cael ei ddarparu bron yn gyfan-gwbl drwy ddarpariaeth uniongyrchol, gan gyrrff cyhoeddus sy'n uniongyrchol atebol. Dyma, mewn gwirionedd, yw'r gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol rhwng gofal iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o ofal cymdeithasol yn cael ei 'gomisïynu' neu ei brynu o'r farchnad, tra bod gofal iechyd bron i gyd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol. Yr eiflen hon o'r model ar gyfer darpariaeth sydd wrth wraidd yr argyfwng presennol, nid y gwahaniaeth llawer llai sylweddol bod gofal iechyd yn y pen draw yn cael ei gynllunio a'i reoli ar lefel llywodraeth ganolog, tra bod cyfrifoldeb am ofal cymdeithasol yn nwylo'r awdurdodau lleol yn bennaf.
- 1.4 Mewn gwirionedd, mae achos cryf dros gadw rheolaeth leol dros ddarpariaeth gofal cymdeithasol. Gall canoli arwain at ficrocratiaeth ormodol ac ansensitrwydd i angen lleol. Y cynghorau lleol sydd yn y sefyllfa orau i wybod pa ddarpariaeth sydd ei hangen, ac yna i darparu. Nhw hefyd yw prif ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus atalio ar lefel personol ac iechyd y cyhoedd, ac mae ganddynt bartneriaethau datblygedig gyda darparwyr allweddol eraill, gan gynnwys gwasanaethau iechyd sylfaenol ac ysbysai.
- 1.5 Mae'r weledigaeth o ddull di-dor sy'n canolbwyntio ar atal yn dibynnu ar gydgyssylltu darpariaeth ar lefel leol. Rôl llywodraeth ganolog yw cydlynu ac, os oes angen, rheoleiddio, sicrhau cysondeb a thegwch rhwng ardaloedd. Yn fwyaf arwyddocaol, rhaid i llywodraeth ganolog sicrhau bod cyllid o'n gymesur â'r weledigaeth genedlaethol o wasanaeth cyffredinol o safon sydd am ddim lle caiff ei ddarparu.

1.	Crynodeb	5
2.	Cefndir a hanes	6
3.	Y Weledigaeth ar gyfer Cymru	7
4.	Gwasanaeth Gofal i Gymru	9
5.	Yr economi gofal cymdeithasol	10
6.	Achos cyfreithiol	18
7.	Cyd-gynhyrchu	19
8.	Crynodeb o'r achos dros ddarpariaeth gyhoeddus	20
9.	Materion gweithlu	21
10.	Cynyddu capasiti mewnol awdurdodau lleol	23
11.	Modelau darparu gwasanaeth	23
12.	Materion cyllido	26
13.	Casgliadau	28

Rhagarweiniad gan Dominic MacASKILL, Ysgrifennydd Rhanbarthol UNSAIN Cymru Wales



Mae Mae miloedd lawer o weithwyr gofal yn mawr obehithio y bydd Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn sicrhau gwelliannau mawr iddyn nhw a'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Mae defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr gofal yn cael bargaen wael iawn dan y system bresennol o gomisiynu, contractau allanol a'r angen i wneud elw, ynghyd â blynyddoedd o ddiffyg cyllido.

Mae tiodi ymysg y rhai sydd mewn gwaith yn gyffredin; mae trosiant staff yn uchel ac mae yna nifer fawr o swyddi gwag. Mae'r angen i greu elw neu, yn achos y trydydd sector, i gystadlu â darparwyr sydd am wneud elw, yn goiygu bod cornell'n cael eu torri ac mae gormod o ddefnyddwyr gwasanaethau yn cael eu dyrannu i weithwyr gofal; nid ydynt yn cael eu talu am amser teithio, ac mae hyn yn effeithio ar ofal y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau.

Y system ei hun yw'r rhwystyr sy'n atal gweithwyr gofal rhag darparu'r lefel o ofal y maent yn ei ddymuno ar gyfer pob un o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Ni ddylid gosod gweithwyr gofal a defnyddwyr gwasanaethau yn y sefyllfa warthus hon.

Mae gweiniogion i'w canmol am gyflwyno cynlluniau ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol, ond ni fydd pobl Cymru ond yn cael y gofal o ansawdd uchel y maent yn ei haeddu oni chaff elw preifat a'r model comisiynu eu dileu.

Mae'r adroddiad pwerus hwn gan APSE, a gomisiynwyd gan UNSAIN Cymru, yn cyflwyno achos busnes i wasanaethau gofal eu darparu'n uniongyrchol ac yn gyhoeddus gan awdurdodau lleol. Mae'n dangos, er gwaethaf y biliwn o bunnoedd sy'n llifo i'r sector, nad oes unrhyw ddealltwriaeth o faint yn union o arian sy'n mynd i bocedi preifat. Dylai'r holl arian sy'n cael ei wario ar ofal fynd tuag at ddarparu gofal.

Ni allwn fforddio colli'r cyfle hwn i sicrhau bod Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn cael ei sefydlu'n iawn o'r cychwyn, gan drawsnewid gofal am byth. Rhaid i wasanaeth o'r fath fod yn seiliedig ar urddas a pharch at ddefnyddwyr gwasanaethau a staff.



Mae APSE (Cymdeithas er Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cyhoeddus) yn gorff llywodraeth leol nid-er-ellw sy'n gweithio gyda mwy na 300 o gynghorau ledled y DU.

Gan hyrwyddo rhagoriaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus, APSE yw'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw mewn gwasanaethau rheng flaen awdurdodau lleol; mae'n cynnal rhwydwaith ar gyfer darparwyr gwasanaethau rheng flaen mewn meysydd fel casglu gwastraff a sbwriel, parciau a gwasanaethau amgylcheddol, hamdden, prydau ysgol, glanhau, tai a chynnal a chadw adeiladau.

Mae APSE yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer awdurdodau lleol, megis meincnodi, ymgynghoriaeth, seminarau, ymchwil, dogfenau britfio a hyfforddiant. Trwy eu cangen ymgynghorol mae APSE yn darparu cymorth arbenigol i gynghorau gyda'r nod amlyg o ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau a gwerth am arian drwy adolygu ac ailgynllunio gwasanaethau. Mae APSE yn cynnal mwy na 100 o brosiectau bob blwyddyn, ac mae cleientiaid yn elwa ar ymagwedd foesegol nid-er-ellw'r gymdeithas at wasanaethau ymgynghorol.

Adroddiad wedi'i gomisiynu gan UNSAIN Cymru Wales

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Andy Mudd a Tim Cheetham ym mis Awst 2022
Fersiwn 0.1



Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gyfrw